# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 37
MEDI 2010

*Croeso Medi, fis fy serch,*
*Mis y porffor ar y ffriddoedd;*
*Pan y ceni'th glychau mêl*
*Casgl y gwenyn o'r dyffrynnoedd.*

(Eifion Wyn)

Pennill hyfryd iawn yw'r un uchod o eiddo'r bardd Eifion Wyn, cân o fawl i fis Medi. Os ydym yn ffodus dyma'r adeg y cawn fwynhau Ha'Bach Mihangel wrth fynd ati i gasglu mwyar duon yn y cloddiau a gwrando ar drydar y wenoliaid cyn iddynt droi yn ôl am yr Affrig. Daeth mis Awst i ben ac fe ddychwelodd y plant i'r ysgol i gychwyn tymor newydd o flwyddyn addysgol. Aeth gwyliau'r haf yn atgof pell a rhaid bwrw ati i ymroi i weithgaredd Tymor yr Hydref. Mae mis Medi yn dod â bwrlwm o weithgarwch yn ei sgil ac yn rhoi cyfle inni dorchi llewys o'r newydd. Yn sicr fe fydd yr wythnosau nesaf yn rhai prysur yn ein hanes. Bydd y paratoadau ar gyfer Taith Dewi Sant yn cyrraedd eu pen llanw a mawr obeithiaf y bydd yna gefnogaeth gref i'r cyfarfodydd yn Aberystwyth ac ym Mhenrhyn-coch yn ystod wythnos y genhadaeth. Ie! Edrychwn ymlaen at gydweithio i hyrwyddo neges Iesu Grist yn ein cymdeithas a diolchwn am y fraint a'r cyfle i ail-gydio yng ngweithgarwch y deyrnas.

Tra bydd y rhan fwyaf ohonom yn medru ail-gydio yn ein gwaith wedi hoe dros yr haf- ac yn diolch am y cyfle- gwyddom am sefyllfaoedd brodyr a chwiorydd, ymhell ac agos, sydd yn bur wahanol. Cawsom ein brawychu yn ystod mis Awst wrth weld yr holl ddistryw a ddigwyddodd ym Mhacistan yn sgil y llifogydd. Ac er mai testun diolch oedd clywed bod 33 o fwyngloddwyr gwlad Chili yn dal yn fyw, er iddynt gael eu caethiwo 700 medr o dan y ddaear, testun gofid oedd clywed y byddai'n cymryd i fyny at bedwar mis i'w rhyddhau. Ac yn ardal Aberystwyth fe'n syfrdanwyd wrth glywed y newyddion am y ddamwain angheuol pan gafodd dau o bobl ifainc y fro eu lladd.

Felly wrth i ninnau ymroi i weithgarwch Tymor yr Hydref boed inni fod yn ymwybodol fod yna nifer yn ein plith ac ar draws y byd mewn sefyllfaoedd tra gwahanol i'r hyn a ddarlunir gan Eifion Wyn yn ei gerdd. Wrth inni ail-gydio yn yr awennau a mynd ati i ganol prysurdeb bywyd beth am dreulio ychydig o funudau bob dydd i ddod â phawb sydd ynghanol stormydd creulon bywyd gerbron gorsedd Duw a deisyf iddynt brofi o nerth a chynhaliaeth ein Tad nefol.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS MEDI 2010**

| Cyhoeddwr y Mis: Richard Wyn Davies | Organydd y Mis: Mair Evans | |
|---|---|---|
| 5 Medi 2.3 | Oedfa gymun :Gweinidog | Gofal y Cymun:Sue Hughes |
| 12 Medi 10.30 | Oedfa deuluol: Gweinidog | |
| 19 Medi 2.30 | Oedfa Bregethu: Gweinidog | Gofal y Te: Glenys a William Howells |
| 26 Medi 10.30 | Oedfa Bregethu | |
| 3 Hydref 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Gofal y Cymun: Sue Hughes |
| 10 Hydref 10.45yb | Oedfa Undebol yn Eglwys Sant IoanDarperir cinio ysgafn wedi'r oedfa. | |

## I'CH DYDDIADUR

6 Medi : Cinio Cymorth Cristnogol Canolfan San Paul: 12.00-1.30yp
7-10 Medi : Cynhadledd Flynyddol y Senana yn Llambed.
8 Medi : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
11 Medi : Bore Coffi er budd Macmillan yn Festri Seion, Stryd y Popty am 10.30yb.
14 Medi : Cyfarfod Blynyddol 'Os Mêts' am 7yh, Festri'r Garn.
15 Medi: Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn
18 Medi : Te, Coffi a Stondinau Amrywiol yn Festri Bethel
22 Medi Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd, Harmoni, Pencaer, Sir Benfro.
22 Medi : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
23 Medi : Cyfarfod Taith Dewi Sant yn Festri'r Garn am 7yh
27 Medi: Cyfarfod Diaconiaid Bethel a Horeb ar y cyd: Festri Horeb am 5.30yh a Chyfarfod Diaconiaid Horeb i ddilyn
28 Medi: Cwrdd Gweddi Misol: Festri Horeb 7.30
2-10 : Taith Dewi Sant
3 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch ar y cyd yn Seion, Stryd y Popty am 6yh
5 Hydref : Noson 'A Night of Colour' yng Nghapel y Morfa yng nghwmni'r Parchedig Daniel Cozens am 7yh
6 Hydref : Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni'r Parchedig Tecwyn Ifan yn Neuadd Penrhyn-coch am 7yh
8 Hydref : Oedfa Iacháu yn Horeb am 7yh
9 Hydref: Noson Glo Taith Dewi Sant yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 7yh yng nghwmni'r Parchedig Daniel Cozens

## LLOFFION

- **Dymuniadau gorau** i Mrs Mona Edwards, Mr Eddie Evans a Mr Henry Thomas sydd wedi bod yn yr ysbyty.
- **Llongyfarchiadau:**
  i'r Parchedig Peter a Mrs Meryl Thomas ar enedigaeth eu hwyres, Zara Fflur.
  i Manon Reynolds ar ei chanlyniadau Lefel 'A' a phob dymuniad da iddi yn y coleg.
  i Lisa a Rhys ar enedigaeth eu mab, Jac, ŵyr i Non a Colin.
  i Rhian Dobson ar ei dyweddïad ag Iwan.
- **Dymuniadau gorau** i Elin Haf (Llanfairpwll) a Gethin Williams a fydd yn priodi ar ddydd Sadwrn Medi 24
- **Cydymdeimlwn** â Mrs Mair Evans ar golli ei chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

## TAITH DEWI SANT : 2-10 Hydref : Apêl am Gymorth

Yn ystod ail hanner yr wythnos hon fe fydd deg o wirfoddolwyr "Taith Dewi Sant" yn cysgu dros nos yn Festri Horeb. Byddant yn paratoi brecwast eu hunain yn y bore ac yn cael cinio ysgafn canol dydd yn Neuadd yr Eglwys. Bydd angen darparu pryd o fwyd iddynt o'r nos Fercher hyd at y nos Sadwrn a chynnig

cawod iddynt hefyd. Y mae sawl teulu wedi cynnig pryd o fwyd gyda'r hwyr yn barod ond y mae angen rhagor i gynorthwyo. Pe baech yn medru cynnig pryd o fwyd (a chawod) i ddau berson rhwng 5 a 7 o'r gloch y nos byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch â Judith.

Ar ddydd Sul 10fed Hydref byddwn yn cynnal oedfa ar y cyd gydag Eglwys Sant Ioan i ffarwelio a diolch i'r cenhadon. Darperir cinio ysgafn i bawb yn Neuadd yr Eglwys wedi'r oedfa a gofynnir yn garedig i aelodau Horeb i ddarparu pwdinau ar gyfer rhyw 50 o bobl. Cysylltwch â Janice os ydych yn medru cyfrannu pwdin.

Yn ystod yr wythnos fe fydd angen cymorth i gludo'r gwirfoddolwyr o fan i fan. Pe baech yn medru cynorthwyo rhywbryd yn ystod yr wythnos, byddem yn ddiolchgar iawn.